



Peidiwch â Dioddef yn Dawel!

Mae teuluoedd carcharorion yn ddiodefwr sy'n cael eu hanghofio pan fo'r rhai maent yn eu caru yn cael eu carcharu, rydym ni'n deall hyn.

Peidiwch â dioddef yn dawel...

...ffoniwch ni ar 01792-458645

Cysylltwch â ni os ydych am roi rhodd-daliad neu os hoffech ddarganfod mwy am wirfoddoli gyda ni.

Mae rhiant 160,000 o blant yn mynd i'r carchar bob blwyddyn

Mae plant carcharorion oddeutu tair gwaith yn fwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd meddwl o'u cymharu â'u cyfoedion, ac yn profi lefelau uwch o anafteision cymdeithasol.

Yn ychwanegol, mae cynnal cysylltiadau rhwng carcharorion a'u teuluoedd yn chwarae rôl bwysig yng nghefnogi ailsefydlu a lleihau aildroeddu, a'r carcharorion hynny sy'n derbyn ymweliadau gan bartner neu deulu yn aildroeddu llawer llai na'r rhai nad ydynt yn derbyn hyn.


Dylai bob aelod o'r teulu sy'n cael eu heffeithio gan garchariad gael mynediad i wybodaeth a chefnogaeth cyn gynted ag anfonir rhywun i'r carchar, a dylid annog cyswllt rhwng carcharorion a'u teuluoedd yn gadarnhaol, a rhoi mwy o flaenoriaeth i gyfundrefn carchardai.

www.criminaljusticealliance.org

“Yn diogelu'r gymuned gan leihau aildroeddu drwy gryfhau cyswllt teuluol...”

Yn cefnogi

Families & Friends of Prisoners
101 Stryd Mansel
Abertawe SA1 5UE
Ar agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener
9am-4pm
01792-458645 Peiriant Ateb 24 awr
www.ffops.org.uk
Info@ffops.org.uk



Elusen Gofrestredig Rhif: 105 4204

Yn cefnogi

Families & Friends of Prisoners

“Leithau Aildroeddu drwy Gryfhau Cyswllt Teuluol...”



“Diolch yn fawr am cadw mewn cysylltiad gyda fy teulu a ffrindiau”



Teulu a Ffrindiau Carcharorion

Ydych chi'n newydd i'r sefyllfa hon?

- Ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl?
- Ddim yn gwybod beth i'w ofyn?
- Ddim yn gwybod pwy i'w holi?
- Yn gofidio am ddweud wrth eich plant, eu hysgol, eich gweithle neu'ch ffrindiau?
- Yn straffaglu â phroblemau ariannol?
- Yn ansicr ynghylch eich hawliau?
- Yn teimlo nad oes unrhyw un yn becco?

Gall **FFOPS** gynnig y gwasanaethau canlynol:

- Cyngor ar drefnau llys barn
- Gwybodaeth am garchardai
- Hebrwng teuluoedd a throseddwy'r llys
- Helpu i leoli carcharor
- Cefnogaeth ymarferol
- Arwyddbostio a chysylltu â sefydliadau statudol a gwirfoddol eraill
- Cefnogaeth emosiynol

Gweithio mewn Carchardai

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda charcharorion a'u teuluoedd, gan fynd i ddiwrnodau i'r teulu, Clwb Dysgu Gyda'n Gilydd, Diwrnodau Ymyriad a digwyddiadau eraill yn y carchardai canlynol...

- **Carchar Abertawe**
- **Carchar y Parc**
- **Carchar Caerdydd**
- **Carchar Parc Eastwood**
- **Gweithio gyda phob carchar yn y DU.**

Aelodau Fforwm yn...
Carchar y Parc
Carchar Parc Eastwood

Gweithio mewn Llysoedd

Mae gennym bresenoldeb yn y Llysoedd canlynol:

- **Caerdydd**
Llys Ynadon
- **Merthyr Tudful**
Llys Cyfiawnder Cymunedol
- **Abertawe**
Llys Ynadon a'r Goron

Sylwadau gan ein cleientiaid

"Diolch. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud pe na fydddech chi ar ben arall y ffôn pan roeddwn agen rhywun arnaf i. Doeddwn i ddim yn gwybod sut i ddechrau'r sgwrs na beth roedd angen i mi ei ddweud. Gwnaeth eich geiriau caredig chi i mi sylweddoli nad oeddwn i ar fy mhen fy hun a bod help ar gael i mi ac i deuluoedd eraill. Diolch eto."

"Wn i ddim sut i ddiolch digon i chi am gymaint rydych chi wedi'n helpu ni i gyd."

"Yn anffodus, nid oeddwn yn gwybod amdanoch yn y gorffennol, ond rwy'n hynod falch i mi ddod o hyd i chi nawr"

"Diolch yn fawr am drefnu i rywun fy helpu i gael gweld fy ngŵr."

"Roeddwn i am ddod i ysgwyd eich llaw a diolch i chi am ofalu am fy nheulu pan oeddwn i yn y carchar."

"Diolch yn fawr iawn i bawb yn FFOPs am bopeth y gwnaethoch chi i'n helpu ni i gadw mewn cysylltiad a'n cadw gyda'n gilydd."